Perchennog / Preswylydd

**Gofynnwch am/Please ask for:** Toby Olden **Ffôn/Telephone:** Dd/B

**Fy Nghyf/My Ref:** IF259 / IC / TO

**Eich Cyf/Your Ref:**

**Dyddiad/Date:** 30 Medi 2025

Annwyl Berchennog/Feddiannydd

**<u>Lôn y Cefn, Glyn-coch, Proses Ymgynghori Cyn-statudol</u>**

**Newidiadau i gyfyngiadau Dim Stopio ar farciau 'Ysgol Cadwch yn Glir', Llinellau Melyn Dwbl a Chyfyngiadau Dim Llwytho.**

Mae'r Cyngor yn cynnig newid y cyfyngiadau Dim Stopio ar farciau 'Ysgol Cadwch yn Glir' presennol a gwneud newidiadau i'r llinellau melyn dwbl ar Lôn y Cefn yn rhan o waith datblygu'r ysgol newydd ar gyfer Hydref / Gaeaf 2026. Mae'r newidiadau arfaethedig yn dilyn adolygiad o gyfyngiadau aros ac adborth o ymgynghoriad anffurfiol cychwynnol ar y llinellau melyn dwbl a'r cyfyngiadau dim llwytho yn Lôn y Cefn.

Nod y marciau Dim Stopio ar 'Ysgol Cadwch yn Glir' yw atal parcio rhwng 8am a 5pm o ddydd Llun i ddydd Gwener er mwyn sicrhau diogelwch ar y ffyrdd wrth y fynedfa newydd i'r ysgol ar amseroedd gollwng a chasglu. Mae angen newidiadau i'r cyfyngiadau gwahardd aros ar unrhyw adeg (llinellau melyn dwbl) hefyd yn rhan o waith datblygu'r ysgol newydd gyda chyfyngiadau Dim Llwytho rhwng 8am a 9:30am a 2:30pm a 4pm, o ddydd Llun i ddydd Gwener, a hynny i atal tagfeydd traffig ger yr ysgol ar Lôn y Cefn.

Caiff llinellau melyn dwbl a chyfyngiadau dim llwytho hefyd eu cynnig wrth gyffordd Lôn y Cefn â phriffordd y B4273 (Teras Glyn-coch a Heol Ynys-y-bwl). Bydd y cyfyngiadau dim llwytho wrth y gyffordd ar waith rhwng 8am a 6pm o ddydd Llun i ddydd Gwener a bydd rhan o linellau melyn dwbl gyda chyfyngiadau Dim Llwytho ar Unrhyw Adeg gyferbyn â mynedfa'r gyffordd. Mae'r newidiadau er budd diogelwch ffyrdd ac i gynnal gwelededd yn y gyffordd yma bob amser.

**Priffyrdd, Gofal y Strydoedd a Thrafnidiaeth**
**Highways, Streetcare and Transportation**
Llawr 2, 2 Llys Cadwyn, Pontypridd, CF37 4TH
Floor 2, 2 Llys Cadwyn, Pontypridd, CF37 4TH

Ffôn/Tel: 01443 425001

**Stephen Williams BSc(hons)MBA, GDipLaw, PGDipLegalPractice, MCIOB**
**Cyfarwyddwr Gwasanaethau Priffyrdd, Gofal y Strydoedd a Thrafnidiaeth | Director for Highways, Streetcare and Transportation Services**

**Dewiswch iaith a diwyg eich dogfen | Available in alternative formats and languages**
Croesawn ohebu yn Gymraeg a fydd gohebu yn y Gymraeg ddim yn arwain at oedi. Rhowch wybod inni beth yw'ch dewis iaith e.e Cymraeg neu'n ddwyieithog.
We welcome correspondence in Welsh and corresponding with us in Welsh will not lead to a delay. Let us know your language choice if Welsh or bilingual.

MAE EICH DATA O BWYS www.rctcbc.gov.uk/diogeludata
YOUR DATA MATTERS www.rctcbc.gov.uk/dataprotection

Mae manylion y cynigion i'w gweld yn narlun **TM25/319/IC/P05** sydd wedi'i gynnwys â'r llythyr yma. Hefyd, mae modd eu gweld ar ein gwefan **www.rctcbc.gov.uk/traffig**.

Rydw i wedi amgáu ffurflen ymateb ynghyd ag amlen barod er hwylustod i chi. Fel arall, mae croeso i chi e-bostio **gwasanaethautraffig@rctcbc.gov.uk**. Anfonwch eich sylwadau yn ôl erbyn 21 Hydref 2025.

Os na fyddwch chi wedi cyflwyno ymateb erbyn hynny, bydda i'n ei chymryd hi'n ganiataol nad ydych chi'n gwrthwynebu'r cynigion.

Fydd y Cyngor ddim yn ymateb yn ffurfiol i'ch sylwadau ar hyn o bryd. Serch hynny, bydd eich sylwadau yn llywio'r dyluniad cyn cam nesaf y prosiect, sef Hysbysiad Cyhoeddus.

Rydw i'n gobeithio y bydd yr uchod o gymorth, ond pe hoffech chi gael rhagor o wybodaeth, mae croeso i chi gysylltu â mi gan ddefnyddio'r cyfeiriad e-bost uchod. Fel arall, pe hoffech chi drafod y materion yma dros y ffôn, e-bostiwch **gwasanaethautraffig@rctcbc.gov.uk** i drefnu galwad.

Yn gywir,

T. J. Olden

Toby Olden
Uned Rheoli Traffig

Owner / Occupier

**Gofynnwch Am/ Please Ask For:** Toby Olden **Ffon/Telephone:** N/A

| **Fy Nghyf/ My Ref:** | **Eich Cyf/ Your Ref:** | **Dyddiad/ Date:** |
|---|---|---|
| IF259 / IC / TO | | 30 September 2025 |

Dear Owner/Occupier

**Cefn Lane, Glyncoch - Pre Statutory Consultation**

**Changes to No Stopping on 'School Keep Clear' Markings, Double Yellow Lines and No Loading restrictions.**

The Council is proposing to change the existing No Stopping on 'School Keep Clear' Markings and make changes to the Double Yellow Lines on Cefn Lane as part of the new school development for Autumn / Winter 2026. The changes proposed, follow on from a review of waiting restrictions and feedback from an initial informal consultation on the double yellow lines and no loading restrictions at Cefn Lane.

The No Stopping on School Keep Clear markings are to prevent parking between 8:00am and 5:00pm Monday to Friday in the interests of road safety at the new school access at drop off and pick up times. Changes to the prohibition of waiting at any time restrictions (double yellow lines) are also required for the new school development with No Loading between 8:00am – 9:30am & 2:30pm – 4:00pm, Monday to Friday to prevent congestion at the school on Cefn Lane.

Double yellow lines and no loading are also proposed at the junction of Cefn Lane with the main road B4273 (Glyncoch Terrace and Ynysybwl Road). The No loading at the junction will be between 8am and 6pm Monday to Friday and a section of double yellow lines with No loading at any time opposite the junction entrance. The changes are in the interests of road safety and to maintain visibility at this junction at all times.

Details of the proposals are shown on the attached drawing **TM25/319/IC/P05** which may also be viewed at **www.rctcbc.gov.uk/traffic**.

For your convenience, a response form and a postage paid addressed envelope is enclosed. Alternatively, you may wish to respond by e-mail to **trafficservices@rctcbc.gov.uk**. Responses should be returned with your observations by 21 October 2025.

If there is no response by that date, it shall be assumed that you have no comment to make on the proposals.

The Council will make no formal response to your comments at this stage. However your comments will advise the design prior to the next stage of the project, which will be formal Public Notice.

I trust the above is of assistance, however if you require any further information, please do not hesitate to contact me via the above email address or alternatively should you wish to discuss these matters over the telephone, requests for a call back should be made by email to **trafficservices@rctcbc.gov.uk**.

Yours faithfully,



Toby Olden
Uned Rheoli Traffig | Traffic Management